Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Children and Young People Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ebrill 2012

Annwyl Syr/Madam

**Ymgynghoriad ar y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). I'w gynorthwyo gyda'i ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael eich barn ar y pwnc hwn.

**Beth yw rôl y Pwyllgor?**

Rôl y pwyllgor yw ystyried ac adrodd yn ôl ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Wrth wneud hynny, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

I ystyried:

i. yr angen am Fil i ddarparu ar gyfer safonau ysgol a threfniadaeth ysgol;
ii. a yw'r Bil yn cyflawni ei amcanion datganedig;
iii. y darpariaethau allweddol a amlinellir yn y Bil ac a ydynt yn briodol er mwyn cyflawni'r amcanion;
iv. rhwystrau posibl rhag gweithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau hyn; ac
v. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.

**Beth mae'r Bil hwn yn ceisio ei gyflawni?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi:

> "Mae'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) ('Y Bil') yn amlinellu nifer o gynigion a fydd yn gwneud ysgolion yn fwy atebol drwy gyfuno, diweddaru a thynhau safonau a dulliau rheoli. Bydd y Bil yn diwygio'r broses statudol ynghylch trefniadaeth ysgolion fel bod penderfyniadau'n

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc / Children and Young Committee
Ffôn / Tel : 029 2089 8032
Ebost / Email : PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

cael eu gwneud yn lleol lle y bo'n bosibl. Bydd prif ffrydio sawl rhaglen a ariennir gan grant yn gwella'r modd y caiff y prosesau presennol eu symleiddio. Bydd newid y modd y mae Cyrff Llywodraethu yn cynnal eu Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni yn fodd i sicrhau bod cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnig mewn modd mwy hyblyg er mwyn bodloni anghenion rhieni. Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn cael rhagor o hyblygrwydd ynghylch prisiau prydau ysgol. Yn olaf, bydd awdurdodau lleol yn atebol am gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy roi sail statudol i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg."

**Beth yw Bil?**

Cyfraith ddrafft yw Bil. Unwaith i'r Bil gael ei ystyried a'i basio gan y Cynulliad a chael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn 'Ddeddf y Cynulliad'.

Mae proses sydd â phedwar cymal iddi er mwyn ystyried Bil. Mae Cyfnod 1 yn cynnwys egwyddorion cyffredinol y Bil gan bwyllgor (sy'n cynnwys cael tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan randdeiliaid a'r rhai sydd â diddordeb yn y pwnc sy'n cael ei drafod), a chael cytundeb y Cynulliad ar yr egwyddorion hynny.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn y gwaith o graffu ar y Bil. Yn benodol byddem yn croesawu cael eich barn ar y cwestiynau a restrir yn Atodiad 1.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech gynnwys disgrifiad byr o'ch rôl o fewn y sefydliad hwnnw.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd yn ystyried ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr haf.

Gellir gweld rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=3633

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y broses ddeddfwriaethol yn:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm

Os ydych yn dymuno cyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohono i:
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

Neu, gallwch hefyd ysgrifennu at:

Sarah Sargent, Dirprwy Glerc
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai cyfraniadau gyrraedd erbyn **22 Mehefin 2012**. Efallai na fydd yn bosibl ystyried ymatebion sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau gan y rhai sydd ar y rhestr ddosbarthu sydd ynghlwm (gweler Atodiad 2). Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau sydd heb eu cynnwys ar y rhestr hon, ond a fydd efallai yn dymuno cyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i fynegi barn.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a gyflwynir i bwyllgor. Mae'n bosibl y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth atodol i adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth y mae'n ei hystyried i fod yn wybodaeth bersonol.

Os byddwn yn cael cais am wybodaeth a gyflwynir o dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth rydych yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd eisoes wedi'u hatal rhag cael ei chyhoeddi gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Os ydych yn cyflwyno unrhyw wybodaeth, ac eithrio gwybodaeth bersonol, yr ydych yn teimlo ei bod yn anaddas ar gyfer ei datgelu'n gyhoeddus, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau o'r dystiolaeth ni ddylid eu cyhoeddi a chynnwys dadl resymol i gefnogi hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried y ddadl honno wrth gyhoeddi gwybodaeth neu ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir



**Christine Chapman AC / AM**
Cadeirydd / Chair

**Atodiad 1**

## Cwestiynau Ymgynghori

### Cyffredinol

1. A oes angen Bil i ddarparu ar gyfer safonau ysgol a threfniadaeth ysgolion? Eglurwch eich ateb.

2. A ydych yn credu bod y Bil, fel y cafodd ei ddrafftio, yn cyflawni'r amcanion a nodwyd fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol? Eglurwch eich ateb.

3. Beth yw eich barn ar bob un o brif rannau'r Bil —
   Rhan 1 – Cyflwyniad (adran 1)
   Rhan 2 – Safonau (adrannau 2-37) (gweler tudalennau 9-17, 99-108 o'r Memorandwm Esboniadol)
   Rhan 3 – Trefniadaeth Ysgolion (adrannau 38-84) (gweler tudalennau 17-22, 108-116 o'r Memorandwm Esboniadol)
   Rhan 4 – Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (adrannau 85-88) (gweler tudalennau 22-26, 116-117 o'r Memorandwm Esboniadol)
   Rhan 5 –Swyddogaethau Amrywiol Ysgolion (adrannau 89 – 97) (gweler tudalennau 25-31, 117-119 o'r Memorandwm Esboniadol)
   Rhan 6 – Cyffredinol (adrannau 98-102) (gweler tudalennau 119-121 o'r Memorandwm Esboniadol)

4. Beth yw'r rhwystrau posibl rhag gweithredu darpariaethau'r Bil (os oes rhwystrau) ac a yw'r Bil yn eu hystyried?

### Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

5. Beth yw eich barn ar bwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (h.y. offerynnau statudol, gan gynnwys rheoliadau, gorchmynion a chyfarwyddiadau)?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Rhan 1, Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl sy'n crynhoi'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru yn y Bil i wneud gorchmynion a rheoliadau ac ati.

### Goblygiadau Ariannol

6. Beth yw eich barn ar oblygiadau ariannol y Bil?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a manteision gweithredu'r Bil.

### Sylwadau eraill

7. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch adrannau penodol o'r Bil?

**Rhestr ddosbarthu**
(Saesneg yn unig)

| **Teaching Unions** |
|---|
| *ASCL |
| *ATL Cymru |
| *NAHT Cymru |
| *NASUWT Cymru |
| *NUT Cymru |
| *UCAC |
| *UCU |
| **Local Authorities** |
| Blaenau Gwent |
| Bridgend |
| *Caerphilly |
| Cardiff |
| *Carmarthenshire |
| Ceredigion |
| *Swansea |
| Conwy |
| *Denbighshire |
| Flintshire |
| *Gwynedd |
| Isle of Anglesey |
| Merthyr Tydfil |
| Monmouthshire |
| *Neath Port Talbot |
| Newport |
| *Pembrokeshire |
| *Powys |
| *Rhondda Cynon Taff |
| Torfaen |
| Vale of Glamorgan |
| *Wrexham |
| **14-19 Learning Networks** |
| Blaenau Gwent |
| Bridgend |
| Caerphilly |
| Cardiff |
| Carmarthenshire |
| Ceredigion |
| Swansea |
| Conwy |
| Denbighshire |
| Flintshire |
| Gwynedd |
| Isle of Anglesey |
| Merthyr Tydfil |
| Monmouthshire |
| Neath Port Talbot |
| Newport |
| Pembrokeshire |

| |
|---|
| Powys |
| Rhondda Cynon Taff |
| Torfaen |
| Vale of Glamorgan |
| Wrexham |
| **Official Agencies** |
| *WLGA |
| *ADEW |
| *ESTYN |
| *Children's Commissioner for Wales |
| Equality and Human Rights Commission |
| *Welsh Language Board |
| **Voluntary Sector** |
| Wales Council for Voluntary Action |
| Action for Children |
| Association for the Welfare of Children in Hospital |
| Autism Cymru |
| *Barnardo’s Cymru |
| British Institute of Learning Disabilities |
| *Children in Wales |
| *Chwarae Teg |
| *Citizens Advice Cymru |
| CLIC Sargent |
| Contact a Family |
| Disabled Children Matter |
| Disability Wales |
| Downs Syndrome Association |
| Funky Dragon |
| Joseph Rowntree Foundation |
| Learning Disability Wales |
| Mencap Cymru |
| Merched y Wawr |
| Mothers’ Union in Wales |
| Mudiad Ysgolion Meithrin |
| National Autistic Society |
| *National Deaf Children’s Society |
| National Federation of Women’s Institutes |
| NSPCC |
| Parents Federation |
| *Rhieni Dros Addysg Gymraeg |
| *Save the Children |
| *Scope Cymru |
| SNAP Cymru |
| Stonewall Cymru |
| Voices from Care |
| Wales Council for the Blind |
| Wales Council for Deaf People |
| The Bevan Foundation |
| School Food Trust |
| Parents for Choice |
| National Association of PTAs |
| Steve Gullick, Swansea Metropolitan University |
| |
| Colleges Wales |

| |
|---|
| Careers Wales |
| *Governors Wales |
| Sector Skills Councils |
| Federation of Small Businesses |
| Confederation of British Industry |
| **Foundation Schools** |
| (FS) Bryn Ellan |
| (FS) Brynmawr |
| (FS) Caergeiliog |
| (FS) Cwmcarn |
| (FS) Cyres |
| (FS) Derwen |
| (FS) Eirias |
| (FS) Emrys |
| (FS) Llanerfyl |
| (FS) Maelors |
| (FS) Pen Y Bryn |
| (FS) Stanwell |
| |
| *Gowerton School Governing Body |
| *Local Authority Caterers Association |
| *Abertawe Bro Morgannwg University Health Board |
| *Catholic Education Service for England and Wales |
| *Llantrisant Primary School |
| *British Association for Counselling and Psychotherapy |
| *Deeside College |
| *Granada Learning Group |
| *Asthma UK Cymru |
| *Neath Port Talbot School Based Counselling Service |
| *Monmouthshire Youth Service Face 2 Face Counselling |
| *Community Dieticians in Wales |
| *End Child Poverty Network |
| *British Humanist Association |
| *HAFAL |
| *Diverse Cymru |
| *Pembrokeshire School Counselling Service |
| *Diocesan Director of Education, The Diocese of Monmouth |
| *Llysfaen Primary School |
| *ContinYou Cymru |
| *Children and Young Persons Partnership Powys |
| *South West Wales Shared Legal Services Special Interest Group for Education |

*Organisations/groups that responded to the Welsh Government's consultation on the School Standards and Organisation Bill White Paper.